# tafod elái

MEDI 2008

Rhif 230

Pris 60c


## Hwyl yr Eisteddfodau



**Dawnswyr Bro Taf yn fuddugol yn Llangollen a perffomwyr y ddawns arbennig yn Seremoni y Prif Lenor, Eisteddfod Caerdydd**



**Côr Staff a Chyfeillion Rhydfelen ddaeth yn drydydd mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn yn Eisteddfod Caerdydd.**

## Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2008



Llongyfarchiadau i Gareth Miles, Pontypridd, ar ennill Gwobr Llyfr y Flwyddyn am ei nofel Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel.

Mae'r ddwy flynedd diwethaf wedi bod yn gyfnod o gasglu arian a pharatoi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Mae'r rhestr o gystadleuwyr o'r ardal hon yn faith ac yn ogystal â chorau Efail Isaf a Dawnswyr Nantgarw roedd yn braf gweld côr newydd o Ysgol Rhydfelen a datblygiad criw ifanc Dawnswyr Bro Taf. Eirian Dyfri, Creigiau, oedd y delynores yn holl Seremonïau'r Orsedd yn ystod yr Ŵyl. Bu llawer o'r ardal yn gweithio tu ôl i'r llenni ac yn canu yng Nghôr yr Eisteddfod.

Mae'n siŵr bod gan bawb eu hatgofion am yr wythnos arbennig ac mae'n dyled yn fawr i Huw Llywelyn Davies, Pentyrch, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith. Roedd ganddo dau ddymuniad ar gyfer dydd Gwener yr Eisteddfod - Cadeirio yng Nghaerdydd 2008 a chael gweld Seremoni'r Orsedd ar y Maen Llog.



# tafod elái


***GOLYGYDD***
***Penri Williams***
***029 20890040***

***HYSBYSEBION***
***David Knight 029 20891353***
***DOSBARTHU***
***John James 01443 205196***
***TRYSORYDD***
***Elgan Lloyd 029 20842115***
***CYHOEDDUSRWYDD***
***Colin Williams***
***029 20890979***

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 4 Hydref 2008
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
24 Medi 2008

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.net**
*e-bost*
**pentyrch@tafelai.net**

*Argraffwyr:*
**Gwasg**
**Morgannwg**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**



**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol**
**ar gyfer eich cartref**
**neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**




**MERCHED Y WAWR**
**Cangen y Garth**

**Noson Agoriadol**
**yng nghwmni**
**Glenda Clwyd**

**Nos Fercher 7.45yh**
**10 Medi 2008**
**Ysgol Gynradd Creigiau**
Croeso i aelodau hen a newydd — cyfle i gymdeithasu mewn awyrgylch gyfeillgar.

Nos fercher, 8ed Hydref 8.00yh
Ysgol Gynradd Creigiau
Eirwen Richards yn trafod 'Caws.'

Am ragor o fanylion, ffoniwch:
01443 297583

## EISTEDDFOD Y CYMOEDD

**Nos Wener**
**Hydref 17eg 2008**
**5 tan 10 o'r gloch**

**Ysgol Lewis i Ferched**
**YSTRAD MYNACH**

**Manylion pellach gan yr Ysgrifenyddion:**
**Iola Llwyd 07891177983**
**20 George St, Ystrad Mynach**

**Gareth Evans 02920 522302**
**33 Pendragon Close, Thornhill, Caerdydd**

***Croeso Cynnes i Bawb***

**CYMORTH.COM**

*Llinellau ffôn Cymraeg*

Mae llawer o wasanaethau yn darparu llinellau ffôn Cymraeg. Ewch i www.cymorth.com i gael y rhifau ffôn.


Cydnabyddir cefnogaeth
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru / Sponsored by Welsh Assembly Government
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk


## CLWB Y DWRLYN

## CWIS

8.00yh Nos Wener
19 Medi
Neuadd yr Eglwys, Creigiau

**Manylion: 029 20890314**

---

## CYLCH CADWGAN

*Parch Huw Jones*
*ac Arfon Gwilym*
Stori Hwiangerddi

Yn Acapela,
Capel Horeb, Pentyrch.

Nos Wener, 3 Hydref 2008
am 8.00pm

Cydnabyddir cefnogaeth
yr Academi Gymreig

**Manylion pellach:**
**029 20891577**


RIVERVIEW CHIROPRACTIC

81 HOPKINSTOWN ROAD,
PONTYPRIDD, CF37 2PS

01443 650634

AM DRINIAETHAU EFFEITHIOL AM BOEN

*GWDDF A CHEFN*
*PEN TOST*
*YSGWYDDAU A PHEN-GLINIAU*
*"WHIPLASH"*
*SCIATICA*
*AC*
*ANAFIADAU CHWARAEON*

YN OGYSTAL AG ASESIAD
IECHYD LLAWN
MEWN AWYRGYLCH
HAMDDENOL A GLAN

DR OLWEN A GRIFFITHS
BSC. (HONS) CHIRO

GCC & BCA COFRESTRIEDIG

# CREIGIAU

*Gohebydd Lleol:*
*Nia Williams*

**Llongyfarchiadau mawr i ...**
... Wynford Ellis Owen!
Mae Wynford Ellis Owen wedi ei benodi yn brif weithredwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill. Bydd y swydd hon, sy'n cychwyn ar y 1af o Hydref, yn galluogi Wynford i wneud gwahaniaeth mawr ym myd dibyniaeth.

Hefyd, mae Wynford newydd ennill gradd FD.Sc o brifysgol Caerfaddon sy'n ei alluogi i fod yn gynghorwr trwyddedig i rai sy'n gaeth i alcohol a chyffuriau eraill. Yn ogystal, ennillodd ysgoloriaeth gan 'The Alcohol Education and Research Council' yn Llundain i'w alluogi i ddilyn gradd anrhydedd pellach y flwyddyn nesaf. Oherwydd ei swydd newydd, sut bynnag, mae Wynford wedi dewis hepgor y radd a'r ysgoloriaeth hon.

**Llongyfarchiadau hefyd i ...**
... Geraint Herbert ar ennill y drydedd wobr yn yr Unawd piano 16-19 oed mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

**Llongyfarchiadau i'r graddedigion ...**
... Lowri Jones a Daniel Hooper. Enillodd Lowri ei 2i mewn Hanes ym mhrifysgol Cymru, Aberystwyth ac mae'n bwriadu dychwelyd yno i ddilyn cwrs M.A.
Graddiodd Daniel Hooper gyda 2i mewn Astudiaethau Ffilm o brifysgol Caerwysg ddechrau'r haf – da iawn chi a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Llongyfarchiadau ar eich priodas ...**
... Eleri Knight a Geraint Rees. Priodwyd y ddau yng Nghanada Lodge, Creigiau ar y 12fed o Orffennaf – a bellach maent wedi hen ddychwelyd o'u mis mêl yn Dubai a'r Maldives. Pob hapusrwydd i chi eich dau wrth i chi ymgartrefu yn 'Gwynfa' – enw priodol iawn! – Y Teras, Creigiau.

**Llongyfarchiadau ...**
... i'r arlunydd dawnus, Brian Davies ar ei gyhoeddiad campus 'Portreadau' ddechrau'r Haf. Oriel o beintiadau celfydd iawn yw'r llyfr 'Portreadau' sy'n anfarwoli cewri'r genedl fach yma ac yn cynnig portread geiriol cywrain yn ogystal. Mae gwaith Brian yn addurno ambell i stafell yn y parthau yma ers cryn nifer o flynyddoedd – fel y clywsom gan ei gyfaill Huw Llywelyn Davies yn y noson a drefnwyd yn Canada Lodge, Creigiau i ddathlu ymddangosiad y llyfr ychydig yn ôl. Dechreuodd ei ddiddordeb mewn celf pan yn grwtyn bach – wrth iddo ail-greu lluniau o sêr y sgrîn arian megis Judy Garland a'i thebyg.



**Geraint Rees ac Eleri Knight**

Yna wedi gyrfa academaidd loyw fel darlithydd prifysgol a chryn dipyn o lwyddiant ym myd y campau – mae Brian wedi ail-afael yn ei frwsys paent a mynd ati i greu darluniau hyfryd mewn olew o gymeriadau hardd a hynod. Meddai Brian 'Yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd yn 2003 fe welais i lun arbennig o Shane Williams yn rhedeg ar draws y cae gyda'r bêl yn ei ddwylo a Jonny Wilkinson y tu ôl iddo yn ceisio ei daclo. Felly fe baentiais i'r llun a gwerthu tua 90 o *brints.* Wedi blwyddyn o baentio lluniau o'r papurau newydd fe benderfynais i symud ymlaen i wneud portreadau – ac felly fe baentiais i hunan-bortread, ac wrth lwc roedd yn edrych yn debyg i mi!' ac mae'r gweddill yn hanes – hanes sydd wedi ei groniclo'n dwt rhwng cloriau y gyfrol 'Portreadau' a gyhoeddir gan Wasg Carreg Gwalch.

Mae gan Brian ddyheadau pellach – hoffai yn fawr gael y cyfle i baentio Nelson Mandela a Katherine Jenkins. Pwy wyr be' ddaw i'w ran yn y dyfodol agos. Prynwch y gyfrol – mae'n un hardd – ac wrth wneud byddwch yn cyfrannu tuag at elusen Cystic Fibrosis, achos sy'n agos iawn at galon yr arlunydd. Ar nodyn personol, mae gen i fy ffefrynnau – Hywel Teifi, Iwan Bala, Karl Jenkins a'r Dr Rowan Williams – a'r gorau oll efallai – Brei ei hun!

(Rhagor am y Portreadau ar dudalennau 8 ac 13)

**Llongyfarchiadau ...**
... i holl bobl ifanc chweched dosbarth y pentref wnaeth sicrhau canlyniadau da yn eu harholiadau Lefel 'A' fydd yn rhoi cychwyn iddynt ar eu hastudiaethau prifysgol. Mwy o fanylion y mis nesa – os dont i law!

**Llongyfarchiadau ...**
... i'r Cymry newydd sy'n byw yn y pentref. Na – nid newydd-ddyfodiaid yn cael croeso hwyr yn ôl yr arfer – ond trigolion sy wrthi'n croesi'r bont ieithyddol ac wedi llwyddo yn eu harholiadau Cymraeg yr haf yma. Da iawn chi - Simon Shewring a Mrs Lilian Shewring (mam Simon) a Clarke Ellis. Ac i'r lleill nas gwn amdanoch – llongyfarchiadau! Dewch â'ch hanes!

**Ble ma' nhw nawr?**

**Gethin Hooper**
Ysgol Gynradd
Creigiau
1984 – 1992

Ysgol Gyfun
Llanhari
1992 – 1999



Yn raddedig o brifysgolion Llundain (UCL) – B.Sc. Arch. ac yna Prifysgol Westminster – Dip Arch. yn 2006.
Ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer Rhan 3 er mwyn ennill ei RIBA. Mae'n gyflogedig gan gwmni Richard Rogers yn Fulham, Llundain lle mae'n gweithio fel pensaer. Yn y gorffennol mae wedi ymgymryd â phrosiectau i David Linley – yn creu delweddau ar gyfer ei gatalog celfi diweddara. Ymhlith ei ddiddordebau – pan gaiff amser – mae canu'r gitar, cerddoriaeth jazz, teithio a ffotograffiaeth. Treuliodd dri mis yn teithio yng ngwledydd y dwyrain sef Thailand, Cambodia, Laos a Vietnam. Yn ôl ei fam 'all e'm coginio; wnaiff e ddim coginio!' – felly mae'n hynod ffodus o'i gymar Karin – merch o wlad Czech yn enedigol. Mae'n debyg i'w ddiddordeb ym maes cynllunio gyniwair wrth iddo greu y pethau mwyaf anhygoel allan o Lego pan oedd yn ifanc iawn – unrhywbeth ar wahan i'r hyn ddyluniwyd ar y bocs! Pan yn fyfyriwr chweched dosbarth yn ysgol Llanhari enillodd fedal am ei waith cynllunio yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mae'n yrfa ddiddorol hyd yma – does wybod beth ddeil y dyfodol iddo. Pob lwc i ti Gethin, a chadw mewn cysylltiad!

## MENTER IAITH
**Rhondda Cynon Taf**

**Yn hybu'r Gymraeg**

**01443 226386**

www.menteriaith.org

**Hwyl gyda Martyn**
Cafodd Cylch Meithrin Thomastown bore o hwyl a sbri gydag ymwelwr arbennig iawn ar ddydd Llun 7 Gorffennaf.

Daeth Martyn Geraint i ganu a dawnsio gyda phlant a rhieni'r Cylch a chynnig cyfle i'r gynulleidfa ymuno yn y sioe. Er nad oedd y rhieni yn medru'r Gymraeg roeddynt yn awyddus iawn a gyda help Martyn wedi dysgu nifer o ganeuon newydd i fwynhau adre gyda'u plant.

Trefnwyd y digwyddiad gan griw Cymunedau'n Gyntaf y Menter Iaith.

**Cwlwm Busnes**
Mae Julie Richards am drefnu noson Cwlwm Busnes yn cyfuno lansiad ei busnes hi a chyfle i fusnesau cael rhwydeithio. (Mae hi yn asiant i arlunwyr o Gymru ac yn ysgifennu i'r Western Mail ac yn Gynghorydd tref)

Bydd y noson yn Clwb y Bont, Pontypridd ar nos Fercher, 24 Medi am 8.00pm. Disgwylir i arlunwyr fel Iwan Bala a Peter Finnamore drafod eu gwaith a chael arwethiant o luniau neu "sketches" gyda'r elw yn mynd i Menter Iaith Rhondda Cynon Taf.

Dyma fanylion cyswllt Julie 01443 492 707/07966 119367

**Parti Dechrau Tymor**
Mae CIC, Criw Ieuenctid y Fenter, yn trefnu Parti Dechrau Tymor yng Nghlwb y Bont ym mis Medi. Cyfle i bobl ifanc ddechrau ar dymor newydd o weithgareddau.

**Noson Gyntaf Clwb Cyri Menter Iaith: Nos Fawrth, Medi 16eg**
Bwyty Indica, Stryd Fawr, Pontypridd



**Martyn Geraint yn Nhretomos**

(gyferbyn a'r Orsaf ) - Comedi a Cyri gyda Gary Slaymaker yn diddanu. Pris yn cynnwys pryd o fwyd 3 chwrs ac wrth gwrs adloniant. Mynediad drwy docyn yn unig. Tocynnau yn £18-50 ar gael o ffonio swyddfa'r Fenter yn Llantrisant 01443 226 386 neu e-bostio prifswyddog@menteriaith.org. Nifer cyfyngedig o docynnau ar gael, felly archebwch nawr !!

**Parti Ponty**
Er fod y tywydd wedi troi'n wael erbyn diwedd y dydd roedd Parti Ponty yn llwyddiant mawr eleni eto. Daeth dros 4000 o bobl i Barc Ynysangharad i weld perfformiadau gwych ar y llwyfan, y stondinau a'r gweithgareddau amrywiol.

**Cynlluniau Chwarae**
Mae chwe Chynllun Chwarae wedi cael eu cynnal trwy gwyliau'r haf yn Rhydywaun, Abercynon, Pontypridd, Llanhari, Llynyforwyn a'r Bronllwyn a canoedd o blant wedi cael cyfle i chwarae a chael hwyl yn Gymraeg. Diolch i'n Swyddog Plant, Sarah Thomas, am drefnu'r gweithgareddau.

**Clybiau Carco**
Mae Menter Iaith yn trefnu Clwb Carco ar ôl ysgol mewn deg ysgol gynradd yn y Sir - Ysgolion Llantrisant, Evan James, Castellau, Dolau, Garth Olwg, Tonyrefail, Aberdar, Ynyswen, Bronllwyn, Llwyncelyn. Am fanylion pellach cysylltwch â Sarah Thomas ar 01443 226386.




**Parti Ponty**



**Hwyl Cyllun Chwarae Llanhari**

# Pontypridd



**Siwan a Tom**

# Y Groes-faen

Croeso i Ifan Gruffydd, mab bach i Dafydd a Lowri Roberts, Glan Creigiau a brawd i Gwenno Mair. Ganed Ifan ar 30 Mai yn naw pwys ac owns, ac mae'r teulu i gyd wrth eu bodd, gan gynnwys Taid a Nain yn Llantrisant a Tad-cu a Mam-gu yng Nghastell-nedd, heb sôn am ddwy Hen-nain yn y Gogledd, a Hen-famgu a Hen-dadcu yn y De.

Glanaf ein haf yw Ifan – glân ei wedd,
glân ei wawr a diddan;
daeth yn gawr, a daeth yn gân,
yn afiaith teulu cyfan.



**Gwenno'n dangos Ifan ichi.**

# PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol:*
*Jayne Rees*

**Priodasau**

Do, fe ddaeth haul ar y fodrwy yn ystod yr haf – yn ffodus iawn i'r ddau gwpwl a briododd ar yr un diwrnod - fe dywynodd yr haul ym Mhontypridd ac yn Sir Benfro.

Dymuniadau gorau i Siwan Francis a'i gŵr, Tom. Mae Siwan yn wreiddiol o Graigwen a Tom o Gastell Newydd Emlyn. Fe briodon nhw yng Nghapel Sardis Pontypridd. Glesni Roberts, Elin Llywelyn, Mia James a Kate Francis oedd morynion Siwan ac Efa yn forwyn fach. Ffrind i Tom, Aled oedd ei was.Yn ystod y gwasanaeth yn ogystal ag unawd gan Huw Euron fe ganodd griw o ffrindiau 'Y Cwm'. Cynhaliwyd y wledd a pharti nos yn Llechwen Hall, ger Llanfabon. Roedd y grwp Eden yn diddanu gyda'r hwyr. Aeth Siwan a Tom i ffwrdd i'r Affrig ar eu mis mêl. Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau i Branwen Miles, gynt o Graigwen, ac Owen Stickler o Gaerdydd a briododd yn Lamphey Court. Morynion Branwen oedd ei merch Esyllt ac Alaw, merch Eleri Griffiths. Ffrind i Owen, Dave Ritzo oedd y gwas.

Ymunodd y teulu a ffrindiau yn y wledd a pharti a gynhaliwyd yn Wiseman's Bridge, ger Saundersfoot. Maent wedi ymgartrefu ers nifer o flynyddoedd yng Nghaerdydd. Mae Branwen yn dysgu yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac Owen yn bartner mewn cwmni animeiddio sy'n paratoi nifer o raglenni i S4C.

**Gwobrwyo**

Ar Orffennaf y cyntaf yng Ngwesty'r Hilton, Caerdydd cynhaliwyd seremoni 'Llyfr y flwyddyn'. Derbyniodd Gareth Miles, Graigwen y wobr gyntaf am ei lyfr 'Y Proffwyd a'i ddwy Jesebel'. Yn ogystal a thlws hardd cafodd Gareth wobr o £10,000. Llongyfarchiadau!

**Dathlu**

Dymuniadau gorau i Gareth a Caryl Williams, Parc Graigwen ar ddathlu eu priodas ruddem ym mis Gorffennaf.

**Babi newydd**

Llongyfarchiadau i Emma Jane a Jay, Hillside View, Graigwen, ar enedigaeth bachgen, Cai James - brawd bach i Taomi ac ŵyr i Maralyn a Mike Edwards, Graigwen.

# Ysgol Pont Siôn Norton

**Ymddeoliad**

Dymuniadau gorau i Mrs Sue Hall ar ei hymddeoliad ar ddiwedd tymor yr Haf. Mae Sue wedi bod yn aelod o'r staff ers blynyddoedd maith a diolchwn iddi ar ran y staff, rhieni a'r plant am ei chyfraniad gwerthfawr tuag at addysg y plant yn yr ysgol. Cynhaliwyd noson ffarwelio yng Ngwesty'r Vale yn ystod mis Mehefin a braf oedd gweld hen wynebau oedd wedi bod yn gyd-weithwyr iddi yn ymuno gyda ni i wneud y noson yn un gofiadwy.

Dymuniadau gorau hefyd i Mr Prys Hughes a'r teulu sydd wedi ein gadael er mwyn ail-ymgartrefu yn America. Diolch yn fawr iddo am ei gyfraniad yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Croeso**

Croeso i aelodau newydd ymhlith y staff. Mae Mr Rhodri Morgan (nid y prif weinidog!!) wedi cael ei benodi yn athro yng nghyfnod allweddol 2, ac estynnwn groeso i Miss Rachel Lewis a Miss Claire Lewis sydd wedi ymuno â'r staff yn ystod cyfnod mamolaeth dwy athrawes. Hefyd croesawn ddwy aelod newydd ymysg y staff cynorthwyol, sef Mrs Selina Young a Miss Bethan Davies.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Mrs Lowri Harris a'i gŵr Rob ar enedigaeth mab, Cai – brawd bach i Ioan.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Samantha Cook a'i gŵr Simon ar enedigaeth merch fach, chwaer fach newydd i Niamh.

Dymunwn yn dda hefyd i Miss Nicola Cridland, un o'n staff cynorthwyol, ar enedigaeth mab, Alfie. Mae Alfie adref erbyn hyn ar ôl cael ei eni rhai wythnosau cyn amser.

**Hwyl Fawr**

Pob hwyl i ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd wedi ein gadael i ddechrau cyfnod newydd yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Bu dathlu a gwobrwyo yn ystod eu hwythnos olaf yn yr ysgol.

**S4C**

Gwyliwch y sgrin fach yn ystod y misoedd nesaf ac fe welwch wyneb cyfarwydd er ei bod yn byw yn Ffrainc. Fe fydd Sara Mair (Raby) yn cymryd rhan mewn cwis newydd '0 i 1' pan fydd cystadleuwyr o dramor yn herio rheini yn y stiwdio.

# GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

**Babi Newydd**

Llongyfarchiadau i Helen a Dafydd Cantwell ar enedigaeth Osian Tomos Cantwell, ŵyr i Gillian a Howard Edwards a Pam Cantwell. Mae Helen a Dafydd yn gyn-ddisgyblion Ysgol Gymraeg Tonyrefail

**Graddio**

Llongyfarchiadau i Ross Whitehead gynt o Wyndham Street ar ennill ei radd mewn Gwyddoniaeth Meddygol a'r Dyniaethau. Mae Ross wedi cael swydd gyda Gwasanaeth Iechyd Gogledd Cymru. Roedd yn hyfryd i'w weld ar y teledu yn ddiweddar ar daith i fynydd Uchaf Ewrop gyda chriw o wyddonwyr oedd yn astudio effeithiau uchder ar y corff. Mae Ross hefyd yn gyn-ddisgybl Ysgol Gymraeg Tonyrefail. Da iawn Ross a'r dymuniadau gorau ym ei swydd newydd.

**Priodas Diamwnt**

Llongyfarchiadau i Rita a Bill Phillips a ddathlodd eu Priodas Diamwnt ar Awst 14eg. Daeth eu teuluoedd a chriw o'u ffrindiau ynghyd i ddathlu'r achlysur yn y Clwb Cymdeithasol. Treuliodd Bil ei fywyd gweithiol fel athro ac yna Prifathro Ysgol Gynradd Abercerdin ac mae hefyd yn bregethwr Cynorthwyol yn gofalu am Gapel Calfaria. Mae Rita yn actores dalentog iawn sydd wedi perfformio mewn llawer iawn o ddramâu ar hyd y blynyddoedd gyda Chymdeithas Ddrama Gilfach Goch. Dymuniadau gorau i'r ddau am lawer o flynyddoedd o hapusrwydd eto.

**Cymanfa Ganu**

Trefnodd aelodau capeli Moreia a Chalfaria fws i fynd i'r Gymanfa Ganu yn Eisteddfod Caerdydd. Roedd y canu dan arweiniad Alun Guy yn wefreiddiol a mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr iawn a chael bendith, ond trueni fod yn rhaid cerdded mor bell o'r bws i'r Babell achos roedd hyn yn anodd iawn i rai o'r aelodau. Mae cerdded milltir yn dda ac yn iachus ond nid pawb sy'n gallu gwneud hyn a dylai fod gwell trefniadau ar gael ar gyfer yr hen a'r anabl.

# HANES GWLEIDYDDIAETH CYMRU ERS 1945 GAN UN A FU YN EI CHANOL HI




Yn yr Eisteddfod cyhoeddwyd gan Gomer gyfrol sydd wedi cymryd pedair blynedd i'w hysgrifennu, ond dros hanner canrif i'w pharatoi. Y gyfrol yw ***Cynhaeaf Hanner Canrif*** gan yr Arglwydd Gwilym Prys Davies, Tonteg, a rhwng y cloriau mae'r awdur yn mynd ati i grynhoi gwleidyddiaeth Cymru rhwng 1945 a 2005.

Mawr fu'r newidiadau yn y cyfnod hwn wrth reswm, ac mewn 180 o dudalennau mae Gwilym Prys Davies yn ymdrin yn bennaf â'r ddwy thema gyfochrog sydd wedi bod yn gyson drwy ei yrfa hir fel gwleidydd gwlatgarol, sef y frwydr dros sefydlu llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru a diogelu parhad ein hiaith genedlaethol drwy bwyso am statws cyfreithiol i'r Gymraeg.

Yr Arglwydd Prys Davies, brodor o Lanegryn, Sir Feirionnydd a chyfreithiwr wrth ei broffesiwn, oedd yr ymgeisydd Llafur a drechwyd gan Gwynfor Evans yn isetholiad Caerfyrddin 1966. Fe weithiodd yn ddiwyd dros Gymru drwy gydol ei yrfa wleidyddol ac fel un a chanddo wybodaeth bersonol o'r hyn oedd yn digwydd y tu ôl i'r llenni, yn enwedig o fewn y Blaid Lafur, mae'n pwyso a mesur ag awdurdod gyfraniad nifer o wleidyddion a gweision sifil dylanwadol y dydd – Goronwy O. Roberts, James Griffiths, Cledwyn Hughes, J. Emrys Jones, George Thomas, John Morris, Ron Davies ac eraill – pobl yr oedd yn eu hadnabod yn dda, a rhai ohonynt yn gydweithwyr iddo.

Meddai'r golygydd, J. Elwyn Hughes: "Mae Gwilym Prys Davies yn dadlennu sawl cyfrinach ddiddorol dros ben yn y gyfrol hon na chawsant erioed eu datgelu'n gyhoeddus o'r blaen. Mae hefyd yn dangos i ba raddau yr oedd ei berthynas o ag aelodau o bleidiau eraill yn allweddol bwysig mewn sawl cyfeiriad – er enghraifft, y cyfarfod rhyfeddol hwnnw a fu rhyngddo fo a Gwynfor Evans."

Mae'r gyfrol hefyd yn gyfle i Gwilym Prys Davies roi sêl ei fendith ar ffurfio llywodraeth glymblaid Llafur/Plaid Cymru yn 2007: 'Fe'm blinid drwy gydol ymgyrchoedd yr hanner canrif gan y gwrthdrawiadau celyd a difäol yn rhengoedd radicalaidd Cymru; felly, datblygiad pwysig a chalonogol, yn 2007, oedd furfio llywodraeth glymblaid Llafur / Plaid Cymru ar lwyfan y Cynulliad yn seiliedig ar ddogfen bolisi Cymru'n Un (er ei geiriau amherffaith). Ffurfiwyd y glymblaid o ganlyniad i amgylchiadau gwleidyddol arbennig ac nid yw'n dilyn y bydd yr hen elyniaeth a fu mor ddinistriol yn diflannu. Ein gobaith yw y tyf parch, ysbryd cydweithredol a chymod parhaol rhyngddynt mewn llywodraeth. Ac os digwydd hynny, bydd o werth cyffredin difesur i Gymru."

Ychwanega J. Elwyn Hughes, "Beth yr ydych yn ei gael gan Gwilym Prys Davies yn y gyfrol hon yw gwybodaeth o lygad y ffynnon – gwybodaeth gan ŵr a oedd yn yr union fan a lle – yn sylwebydd o'r tu mewn ond yn gallu edrych o'r tu allan, yn wrthrychol ac yn deg iawn."

**Dyma rai o sylwadau Gwilym Prys Davies o'r llyfr ar rai o fawrion y Blaid Lafur yng Nghymru...**

**Ar John Morris....**

"Dros gyfnod o ddeugain mlynedd ar y Fainc Flaen, gweithredwr gwleidyddol ydoedd o ran ei anian, gŵr a nodweddid gan ymroddiad pwrpasol a phenderfyniad i gyflawni amcan pan oedd amodau'n caniatáu. Heb iddo gael y cyfle i weithredu'n gadarnhaol, ni fynnai ymhél yn llwyr â gwleidyddiaeth gan dueddu i gilio'n ôl at ei waith ar y Bar. Mentraf awgrymu mai'r elfen hon yn ei gymeriad yw cryfder pennaf John Morris, mewn un ystyr, a hanfod y llwyddiant a ddaeth i'w ran."

**Ar Jim Griffiths....**

"Ni chredaf y byddwn ymhell o'm lle trwy honni mai [Jim Griffiths] fu'r gwladweinydd Cymraeg amlycaf a mwyaf dylanwadol yn hanes y Blaid Lafur hyd yn hyn. Ac anodd meddwl am neb a allai fod wedi rhoi i Gymru yr arweiniad a roes ef yng nghyfnod olaf ei fywyd."

**Ar Cledwyn Hughes....**

"Rhadlonrwydd, cydbwysedd, goddef-garwch, dyfalbarhad, agosatrwydd gwerinol, rhyw gymaint o gyfrwystra gwleidyddol – ynghyd â hiwmor bob amser – dyna nodweddion neilltuol Cledwyn Hughes."

**Ar George Thomas....**

"Bu'n gymwynaswr â'r gwan a'r anghenus a'r oedrannus a'r methedig. Ac eto, er cystal yr holl weithgarwch daionus hwn, medrai'r funud nesaf droi i fod yn ddyn bychan a milain. Hawdd iawn oedd pechu yn ei erbyn - ac ni faddeuai'n hawdd i'r rhai a droseddodd yn ei erbyn. Roedd yn deyrngar i'r carn ac yn was bach i Wilson. Roedd yn elyn milain i'r cenedlaetholwyr Cymreig ac yn wrthwynebydd ffyrnig i bob amlygiad o ddeffroad yr ymwybod cenedlaethol yng Nghymru. Tueddwyd i'w gymryd yn llawer rhy ysgafn gan ei gyd-wleidyddion. Camgymeriad oedd hynny. Roedd yn wleidydd medrus a chanddo gyfrwystra'r cadno."

**Ar Ron Davies....**

"Mor rhyfedd, mor ddyrys, yw bywyd. Os bu Rhagluniaeth yn garedig wrth Ron Davies ar y deunawfed o Fedi 1997, eto ymhen blwyddyn, ac yntau yn awr anterth ei nerth, bu ffawd yn ddidostur wrtho. Yn sydyn, ar noson 26 Hydref 1998, daeth argyfwng yn ei fywyd personol...Sut y medrai 'eiliad o wallgofrwydd' ddinistrio mor llwyr? Gwelwyd ei golli. Ni all neb ohonom wybod a fyddai Ron Davies wedi aros yr un dyn yn y swydd. Ond mae ei record fel Ysgrifennydd Cymru, fel Llefarydd ar faterion Cymreig, y berthynas ragorol a fu rhyngddo a Dafydd Wigley, ei agwedd gadarnhaol tuag at anghenion y Gymraeg a'r dystiolaeth ei fod yn coleddu'r egwyddor weriniaethol, i gyd yn argoeli y gallasai fod yn arweinydd eofn a radical mewn cyfnod allweddol yn hanes ein cenedl."

**Cynhaeaf Hanner Canrif**
**Gwilym Prys Davies**
**Gwasg Gomer £8.99**

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Y GAREJ**
Daeth cyfnod i ben gyda chau'r Garej ar Heol yr Eglwys, Pentyrch. Wedi bod wrthi yn trwsio ceir am tua ugain mlynedd penderfynodd Paul Board roi'r gorau iddi ac ymddeol. Erbyn hyn mae'r adeiladau wedi eu dymchwel a'r bwriad yw codi tai ar y safle.
Gyda chau y busnes penderfynodd Paul a'i wraig Frances symud i fyw yn y Beddau. Dymunwn yn dda iddynt ar ddechrau cyfnod newydd yn eu bywyd.

**CLWB Y DWRLYN YN RASYS CAS-GWENT**
Dyma adroddiad un aeth i'r rasys ac na chollodd ei grys – Ifan Roberts.
"Dichon mai ymgais Clwb y Dwrlyn i geisio profi neu wrthbrofi ofergoeliaeth oedd dewis Nos Wener y 13eg i fynd i weld ceffylau'n rasio. Rhyfedd mor wamal y gall chwaeth aelodau'r gymdeithas leol hon fod! Un mis yn dotio at ddawn y ddau frawd o Barc Nest – a'r mis canlynol yn cael eu cyfareddu gan y bwcis yng nghysgod Pontydd Hafren.

Yn unol â thema'r noson, ar y daith bws gwisgodd ambell un eu crysau a hetiau "John ac Alun". Ond ymbarchusodd pawb cyn cyrraedd y trac, rhag gwneud gormod o sioe yng nghwmni'r miloedd oedd wedi hurio hetiau a drylliau cowbois a ffrogiau a phlu Hiawatha. Yn amlwg, 'doedd dim cyfyngiadau Asgotaidd wedi eu gosod ar noson "Country & Western" Cas-gwent!

Enciliodd pyntars profiadol i gymharu'r Racing Times â'r wybodaeth roedden nhw wedi ei gipio oddi ar y we y pnawn hwnnw. Craffodd yr anghyfarwydd ar benolau'r cesyg, y jocis ac unrhyw olygfa gyffelyb oedd ar sioe. Rhuthrodd y diniweitiaf i roi swllt ar sail dim ond enw ceffyl. Wrth i'r haul fachlud dros Gasnewydd, suddai rhai gobeithion a chynilion. Ond ni cheir machlud heb wawr. Wrth ddychwelyd i'r maes parcio roedd twincl ddireidus yn llygaid ambell un a chlinc mwy o sylltau nag arfer yn eu pocedi.

Bu'r tywydd hyd yn oed yn garedicach na'r disgwyl. Wedi anwadalwch y dyddiau cynt, cafwyd noson ryfeddol o fwyn hyd at gyfnod y ras olaf, pan ddatganodd meterolegydd y parti iddi gael "gwd sythad" cyn troi sha thre. Y farn gyffredinol oedd i'r achlysur fod yn addysg ac agoriad llygad – a diolch i Dewi Huws am drefnu'r naill a'r llall!"

**PENWYTHNOS CERDDED CLWB Y DWRLYN**
Fel arfer, aeth criw o aelodau'r Clwb i lawr i ogledd Sir Benfro ddechrau Gorffennaf i gerdded llwybr yr arfordir. Clwb Golff Trefdraeth oedd lleoliad y llety y tro hwn gan fanteisio ar y ffaith bod y Clwb wedi agor adeilad newydd a oedd yn rhoi cyfle i ymwelwyr aros dros nos. Yn ogystal â chwarae golff a cherdded, braf oedd medru mwynhau'r olygfa fendigedig dros y Traeth Mawr ac afon Nyfer draw tuag at Trefdraeth ei hun ac i lawr yr arfordir i Abergwaun.

Ymgasglodd y rhan fwyaf nos Wener ac wedi swper blasus bu canu am gryn amser cyn clwydo; ambell aelod yn amlygu ei hun â'i stôr o ganeuon 'gwerinol'!

Y bore wedyn golygfa o wynt a glaw oedd yn gwynebu'r cerddwyr. Serch hynny, er i rai disgyn ar ymyl y ffordd (yn benodol aethon nhw ddim pellach na Threfdraeth!) penderfynodd y rhan fwyaf ei mentro hi a gyrru i Bwll Gwaelod i ddechrau'r daith yn ôl i'r Clwb Golff. Bu rhai yn ddigon mentrus i ymestyn y cerdded ar y cychwyn drwy fynd o gwmpas Ynys Dinas gan adael y gweddill i anelu'n syth am adre. Yr un, fodd bynnag, oedd tynged pob un gan lanio yn y Clwb Golff rai oriau wedyn yn edrych fel brain! Ond 'roedd pob brân yn gwenu! Cawod dwym ac yna noson hwyliog arall yn swpera yn y Clwb.

Ni wnaeth y tywydd amharu dim ar hwyl y penwythnos. Diolch i Judith am yr holl drefnu manwl unwaith eto.

Diolch i Margaret am ei harweiniad yn ystod y flwyddyn ac am fentro i'r gorllewin er gwaetha'r anaf i'w braich. Pob dymuniad da nawr i Peter Griffiths ein llywydd newydd ar gyfer tymor 2008-9.

**PRIODAS**
Ddydd Sadwrn Gorffennaf 26ain yng Nghapel y Tabernacl Efail Isaf priodwyd Sara Esyllt a Mark Rogowski.



**Mark a Sara**

Gweinyddwyd gan Y Parch Eirian Rees a Carey Williams wrth yr organ. Y gwas priodas oedd Alistair Rogowski; Catrin Heledd, Carys Glyn a Siwan Gruffudd, oedd y morynion priodas a Loti Glyn yn forwyn fach. Y tywysyddion oedd Gavin Gibson, Mari Gwent, John Kitchen a Heledd Lewis. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan nifer o ffrindiau. Cafwyd deuawd gan Catrin a Ceri Mears gyda Iestyn Morris wrth y piano a darlleniadau gan Kate Clarke, Gwenfair Griffith, ac Elain Dafydd.

Cynhaliwyd y wledd briodas yn Canada Lodge Creigiau lle bu Gwenllian Glyn yn diddanu'r gwesteion ar y delyn yna cafwyd adloniant pellach yng nghwmni Jac y Do a Dyfan Tudur. Treuliwyd y mis mêl yn San Francisco a Hawaii.

Mae Sara yn gweithio i adran newyddion Radio Cymru a Mark yn athro gwyddoniaeth yng Nghasnewydd. Maent wedi ymgartrefu yn Nhreganna Caerdydd.

**GENEDIGAETHAU**
Croeso mawr i Erin Fflur, merch fach Rhian a Paul Jardine a llongyfarchiadau gwresog i Morfydd a Gareth Huws ar ddod yn fam-gu a thad-cu am y tro cyntaf. Pob dymuniad da i'r teulu bach yng Nghaerdydd.

Mae Ann ac Emlyn Davies wrth eu boddau hefyd yn dilyn genedigaeth ŵyr bach newydd sef Ifan Siôn, mab Carys a Garmon, a brawd i Elan a Gruff. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.


JobTrac Cymru
Canolfan Datblygu Busnes
Ystad Diwydiannol Trefforest
Pontypridd
CF37 5UR
T: 01443 843800
F: 01443 205735
E: post@jobtraccymru.co.uk
W: www.jobtraccymru.co.uk

Ydych chi'n
- CHWILIO AM SWYDD?
- CHWILIO AM WEITHWYR SY'N SIARAD CYMRAEG?
- CHWILIO AM YMGYNGHORWYR ADNODDAU DYNOL?

Adnoddau Dynol a Recriwtio Cymraeg

# YSGOL GYFUN RHYDFELEN

www.rhydfelen.org.uk

**Rhaglen Datblygiad Personol 1 a 2 Gorffennaf 2008**

Ers 2008 mae'r ysgol wedi bod yn clustnodi dau ddiwrnod tua diwedd tymor yr haf ar gyfer y Rhaglen Datblygiad Personol, sef gweithgareddau sy'n berthnasol i addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg yrfaoedd.

Doedd eleni ddim yn eithriad. Daeth yr amserlen arferol i ben am y cyfnod. Death rhyw hanner cant o siaradwyr i ymweld â ni. Cymeron nhw sesiynau gyda blwyddyn 7 i 10 a blwyddyn 12. Does dim modd enwi pawb, ond dyma syniad i chi o'r math o fewnbwn a gafwyd: cymorth cyntaf St. Ioan, yr heddlu a'r frigâd dân, TEDS ac addysg ar gamddefnyddio cyffuriau, sut i orchfygu bwlis, sut i osgoi problemau ar y we, Shelter Cymru, y Samariaid, Tenovus, EBP a busnesau lleol - ac yn y blaen!

Un o'r uchafbwyntiau i flwyddyn 9 oedd ymweliad Paul Jenkins a Siân Rhys Davies a Kimberley y ci! Mae Paul yn ddall - ond, diolch i'w gi, mae'n bell o fod yn anabl. Gwrandawodd y flwyddyn gyfan yn astud ar hanes ei fywyd. Roedd pawb wrth eu bodd. Roedd nifer o ddisgyblion wedi cymryd at y ci mewn ffordd arbennig iawn, ac wedi hebrwng Paul a Siân yn ôl i'r car ar ddiwedd y sesiwn!

Un agwedd hyfryd ar y rhaglen oedd ymateb y siaradwyr ar ôl y sesiynau. Roedd yn brofiad braf iawn clywed un ar ôl y llall yn canmol y disgyblion i'r cymylau. Mae'n siŵr fod pawb, diolch i'n hymwelwyr, wedi cael rhai profiadau gwerthfawr. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw i gyd!

**Llongyfarchiadau i gyn disgyblion disglair Rhydfelen!**

Rydym yn cael newyddion o bryd i'w gilydd gan ddisgyblion wrth iddynt dderbyn eu canlyniadau gradd. Dyma'r rhai sydd wrth law.

Hannah Blunden, Dau Un, Bioleg, Caerdydd.

Owain Brooks, Cyntaf, Fferylliaeth, Caerdydd.

Brennig Williams, Cyntaf, Ffiseg, Rhydychen.

Os ydych chi'n gwybod am ragor neu wedi derbyn eich gradd eleni gyrrwch neges at yr ysgol.

**Hedfan yn Uchel!**

Mae'r ysgol wedi bod yn cydweithio'n




**Y Sied Saff**



**Cymorth Cyntaf**


agos gyda'r cwmni "Media4Schools" ar nifer o brosiectau dros y flwyddyn ddiwethaf. O ganlyniad cafodd tri disgybl o'r grŵp Astudiaethau'r Cyfryngau gyfle unigryw dros wyliau'r haf. Cawsant eu dewis gan y cwmni i ffilmio Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd - o'r awyr - mewn hofrennydd! Cawsant eu dewis am eu hymroddiad arbennig tuag at eu gwaith cyfryngau a'r cyd-weithio arbennig gyda'r cwmni dros gyfnod. Cawn hanes eu profiad yn y rhifyn nesa!

# O'R CAE CHWARAE I'R CYNFAS

Daeth Gethin Jones, Bryn Terfel, Matthew Rhys, Cerys Matthews a llond gwlad o wynebau adnabyddus ynghyd rhwng dau glawr cyfrol newydd y cyn-chwaraewr, sylwebydd rygbi ac artist Brian Davies, Portreadau Brian Davies Portraits a gyhoeddir gan wasg Carreg Gwalch. Lansiwyd y llyfr o flaen torf o bron i ddau gant mewn noson arbennig nos Fercher, 2 Gorffennaf yn Canada Lodge, Creigiau ger Caerdydd.

Mae'r gyfrol ddwyieithog hon yn cynnwys hanner cant o wynebau cyfarwydd, â rhai anghyfarwydd, o sawl maes gwahanol. Cantorion, cerddorion, actorion, diddanwyr, darlledwyr,






gwleidyddion, artistiaid a gwyr y campau yn ogystal â rhai nad ydynt yn ffigyrau cyhoeddus ond sydd wedi cyfrannu'n sylweddol mewn swyddi holl bwysig.

"Un peth sydd yn gyffredin iddyn nhw i gyd, yw 'mod i'n edmygu eu doniau a'u campau ac yn falch iawn o gael y cyfle i greu portread," meddai awdur y llyfr, Brian Davies.

Yn ŵr y campau yn ystod ei yrfa gan gynrychioli Ysgolion Cymru mewn rygbi, criced ac athletau cyn chwarae rygbi dros Lanelli a Chymru, nid oes syndod mai gweld llun o Jonny Wilkinson gyda'i draed yn yr awyr wrth daclo Shane Williams yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd yn 2003 a ysbrydolodd Brian Davies i ddatblygu ei ddiddordeb mewn arlunio ymhellach. Pum mlynedd yn ddiweddarach ac mae Brian yn cyhoeddi casgliad o hanner cant o luniau o gyfeillion, cyfoedion a phobl y mae'n eu hedmygu.

Dechreuodd diddordeb Brian mewn celf tra yn yr ysgol, ond wedi i athro ei berswadio fod gyrfa fwy llewyrchus o lawer o'i flaen yn y gwyddorau, fe aeth i weithio fel darlithydd ym Mhrifysgol Morgannwg am dros 30 mlynedd. Dim ond wedi iddo ymddeol y mae unwaith eto'n cael y cyfle i ail gydio yn y grefft. Wedi cwblhau sawl llun o chwaraewyr rygbi nodedig a'u gwerthu wedi eu llofnodi gan y gwŷr eu hunain er mwyn codi arian tuag at elusen, fe benderfynodd baentio'i hun.

"Fe baentiais i hunanbortread ac wrth lwc roedd yn edrych yn debyg i mi," meddai. "Yna fe es i 'mhlan i dynnu llun o ddau sy'n byw yn lleol, Catrin Finch a Matthew Rhys. Fe ddigwyddodd Catrin sôn ei bod wedi gweithio gyda'r cyfansoddwr, Karl Jenkins ac awgrymu y dylwn i ei baentio fe, ac fel 'na y dechreuodd pethe," eglurai.

**Parhad ar dudalen 13**

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Eifiona Hewitt a'r teulu ym Mhenywaun yn eu profedigaeth o golli tad Eifiona ddechrau mis Gorffennaf. Cydymdeimlwn â mam Eifiona hefyd a hithau'n fregus iawn ei hiechyd ers amser bellach.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Gareth a Caryl Williams a'r efeilliaid bach, Greta a Tom, Heol y Ffynnon, yn eu gofid o golli tad Gareth, Mr Richard Hall Williams yn Ysbyty Llandochau ar y 24ain o Orffennaf. Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i Nia, ei weddw a'r teulu i gyd yng Nghaerdydd.

**Dyweddïo**
Llongyfarchiadau cynnes i Bethan Eyres a Tim Cory ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Merch Dave a Rhian Eyres, Heol Iscoed yw Bethan, ac mae Tim yn hanu o Plymouth. Tan gwyliau'r haf roedd Bethan yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Mynydd Bychan yng Nghaerdydd, ond ym mis Medi mae'n bwriadu mynd i astudio am radd uwch mewn Seicoleg Addysg ym Mhrifysgol Southampton. Mae Tim yn aelod o'r Awyrlu ac yn gweithio yn Belfast ar hyn o bryd. Dymunwn yn dda i'r ddau.

**Llwyddiant yn Eisteddfod Llangollen**
Llongyfarchiadau i amryw o blant y pentref sy'n aelodau o Adran Bro Taf ar eu llwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Cipiodd y grŵp dawnsio y wobr gyntaf i blant o dan ddeunaw oed. Rhaid enwi un ohonynt, sef Trystan Gruffydd, Nantcelyn gan iddo yntau wneud yn arbennig o dda yn clocsio gyda Gavin Ashcroft mewn cystadleuaeth dawns stepio i bâr.

**Gwellhad Buan**
Bu Ethin Henry, Nantyfelin yn yr ysbyty'n derbyn triniaeth ar ei llygad ddiwedd mis Gorffennaf. Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan iddi.

**Dymuniadau Da**
Cawsom gyfle i longyfarch Ffion Rees, Penywaun yn rhifyn mis Gorffennaf ar dderbyn gradd o Brifysgol Abertawe. Merch hynaf Geraint a Caroline Rees yw Ffion ac mae wedi penderfynu mynd i Goleg Prifysgol Westminster yn Llundain i astudio Newyddiaduraeth Darlledu ym mis Medi.

**Ffair y Pentref**
Cafwyd ffair lwyddiannus iawn yn y pentref, brynhawn Sadwrn, Gorffennaf 26ain. Er i dywydd yr haf eleni fod mor ddiflas a gwlyb cafwyd diwrnod bendigedig o haul di-dor i gynnal y ffair. Roedd amrywiaeth o stondinau a gweithgareddau i'r plant yno ac mi wnaeth pawb fwynhau'r prynhawn.

**Llwyddiant yn Eisteddfod Caerdydd**
Bu wythnos y Brifwyl yn gyfnod prysur a llwyddiannus iawn i amryw o bentrefwyr Efail isaf. Cafodd Côr Godre'r Garth yr ail wobr yng nghystadleuaeth y Corau, ddydd Sadwrn cyntaf yr Ŵyl. Llongyfarchiadau gwresog hefyd i'w harweinydd, Eilir Owen Griffiths ar ennill Tlws y cerddor.

Cafodd Parti'r Efail yr ail wobr yn y gystadleuaeth Parti Cerdd Dant a'r drydedd wobr yn y Parti Alaw Werin.

Llongyfarchiadau i Menna Thomas a Gavin Ashcroft ar ennill y drydedd wobr yng nghystadleuaeth y ddeuawd Cerdd Dant. Rwy'n siŵr fod Menna'n falch iawn o'i champ yn arwain Côr Athrawon a Chyfeillion Rhydfelen i'r trydydd safle yng nghystadleuaeth y corau ar y nos Wener.

Ar yr un noson cafodd Côr Merched y Garth hefyd y drydedd wobr yng nghystadleuaeth y Côr Cerdd Dant. Llongyfarchiadau Llinos. Roedd amryw o aelodau'r pentref yn aelodau o gorau a phartïon eraill yn ystod yr wythnos. Llongyfarchiadau i chi gyd.

Gwelwyd amryw o blant y pentref, ac un neu ddau o'u rhieni yn cystadlu gyda phartïon dawns Nantgarw gan ennill amryw o wobrau. Roedd eu perfformiad buddugol yn y Cyflwyniad Llafar ac ar Gân ar y testun "Llanw a Thrai" yn gofiadwy iawn. Llongyfarchiadau i bawb a maddeuwch i mi os wyf heb enwi rhywrai a fu'n llwyddiannus.

# Y TABERNACL

**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau i ddau o'n haelodau, Bryn a Myra Davies o Radur a fu'n dathlu eu Priodas Aur ar Awst 6ed. Fe symudodd Bryn a Myra i'r ardal o Fangor rai blynyddoedd yn ôl i gael bod yn agosach at eu merch, Bethan Roberts a'r teulu yn Nantcelyn.

Llongyfarchiadau gwresog i chi eich dau.

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Sara Esyllt a Mark Rogowski ar eu priodas yng Nghapel y Tabernacl ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 26ain. Dymunwn pob hapusrwydd i chi eich dau.

**Merched y Capel**
Fe fydd cyfarfod nesaf grŵp y merched yn "Just Because", Pontyclun ar ddydd Mawrth, Medi 2il am 11 o'r gloch y bore. Byddwn yn trefnu rhaglen y tymor, felly dewch â digon o syniadau.

**Adferiad Iechyd Buan**
Dymunwn yn dda i un o'n haelodau, D.J. Davies, Tonyrefail, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Llantrisant. Anfonwn ein cofion cynnes ato, gan obeithio y bydd y cael adferiad iechyd llwyr a buan.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau gwresog i Rhian a Paul Jardine ar enedigaeth merch fach, Erin Fflur. Wyres fach gyntaf i Gareth a Morfydd Huws, Pentyrch.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Medi**
Medi 7ed. Oedfa Gymun o dan ofal ein Gweinidog
Medi 14eg. Oedfa Deuluol.
Medi 21ain. Y Parchedig Jeff Williams, Aberhonddu.
Medi 28ain. Y Parchedig Aled Edwards, Cilfynydd.

# Gwefan newydd sy'n esbonio'r system gynllunio

Mae gan Gymorth Cynllunio Cymru wefan newydd gyffrous sy'n llawn o wybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru. Mae'n esbonio prif elfennau'r system gynllunio defnydd tir mewn iaith blaen ac yn egluro sut gall y cyhoedd gymryd rhan mewn materion cynllunio. Gallwch hefyd lawrlwytho nifer o daflenni a llyfrynnau sy'n rhoi gwybodaeth mwy manwl ar agweddau arbennig o'r system gynllunio. Mae dolenni yn eich arwain at ffynonellau eraill o wybodaeth bellach ar-lein, fel y gallwch gael hyd i'r holl wybodaeth sy ei hangen ar gyfer eich ymgyrch gymunedol. Ceir rhestr dermau cynhwysfawr, sy'n esbonio termau arbenigol mewn iaith glir a syml. A rhag ofn eich bod yn dal heb ffeindio beth rydych am ei wybod, cewch yno hefyd fanylion cyswllt Cymorth Cynllunio Cymru a mudiadau eraill a all helpu ymhellach.

Bydd y wefan newydd, sy ar gael ar **www.cymorthcynlluniocymru.org.uk**, yn tyfu dros y misoedd a blynyddoedd i ddod.

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577

**Gwellhad Buan**
Mae'n dda iawn, iawn gallu adrodd bod Mr D J Davies wedi dod adref o'r ysbyty ac yn gwella'n dda ar ôl ei lawdriniaeth ddiweddar. Tra oedd yn yr ysbyty bu nifer fawr o gyfeillion o Donyrefail ac o Gapel y Tabernacl yn ymweld ag ef. Brysiwch wella!

**Dawnswyr Bro Taf yn Llangollen**
Llongyfarchiadau i Ddawnswyr Bro Taf a ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth 'Dawns Werin i Blant' yn Eisteddfod Gydwladol Llangollen eleni. Enillon nhw yn erbyn chwech o grwpiau eraill o dros y byd i gyd a chafwyd canmoliaeth hael iawn gan y beirniaid. Diolch yn fawr iawn i'r hyfforddwyr –Eirlys, Cliff, Gavin a Nerys am eu gwaith caled iawn yn hyfforddi'r plant. Gellir gwylio'r perfformiad buddugol yn ei gyfanrwydd ar wefan llangollen tv (www.llangollen.tv). Bu rhai o'r plant yn cystadlu a pherfformio yn yr Eisteddfod Genedlaethol hefyd.





**Dawnswyr Bro Taf yn Seremoni'r Prif Lenor**

## Y BYD YN EICH POCED

Oeddech chi'n gwybod bod pedair miliwn tunnell o sbwriel yn cael ei daflu bob blwyddyn yng Nghymru, digon i lenwi Stadiwm y Mileniwm pob 20 diwrnod? Neu fod 240 miliwn o glytiau parod yn cael eu taflu'n flynyddol, mae hynny bron yn 500 bob munud?

Dyma ddim ond dau o ffeithiau rhyfeddol sydd i'w darganfod yng nghyhoeddiad diweddaraf y Dref Wen, 'Y byd yn eich poced'. Wedi ei ysgrifennu gan Gwenith Hughes, mae'r llyfr poced hwn yn frith o ffigyrau a ffeithiau chwim sy'n datgelu'r her a'r sialens sydd yn ein hwynebu heddiw wrth i ni geisio lleihau llygredd a gwastraff o bob math. Mae'n drysorfa o wybodaeth amgylcheddol, o newid hinsawdd i dirlenwi ac o fasnach deg i nwyddau organig.
Y byd yn eich poced
Dref Wen £3.99

## Cornel y Plant

### CHWILOTWR CHWIM — LLIWIAU

ARIAN GWYRDD OREN
AUR GWYN PINC
COCH LLWYD PORFFOR
DU MELYN

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| C | O | CH | LL | O | C | R |
| O | R | G | W | Y | N | O |
| M | E | L | Y | N | I | FF |
| R | N | U | D | O | P | R |
| U | N | A | I | R | A | O |
| A | G | W | Y | R | DD | P |




**Cadw'n heini**
Mae'r dynion hyn yn ceisio cadw'n heini. Beth sy'n wahanol yn y ddau lun?



# CROESAIR COL

## Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau.

**Enillydd Gorffennaf**
**Mrs G Edwards, Pontyclun**



**Atebion i: Croesair Col**
**34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX**
**erbyn 20 Medi 2008**


**Ar Draws**
3. Dod o hyd i (9)
8. Llinyn o gotwm (4)
9. Miniog, craff (8)
10. Llai a llai (6)
13. Diosg, tynnu (5)
14. Ymestyn allan (7)
15 Eglwys (3)
16. Dymuniad (7)
17. Casgen i wneud menyn (5)
21. Cyfarwyddyd (6)
22. Urddo rhywun (8)
23. Dyn merchetaidd (4)
24. Clwyfau arwynebol (9)

**I Lawr**
1. Darnau o dir lle mae coed ffrwythau yn tyfu (9)
2. Yn ymwneud â phriodoloedd (9)
4. Perfformio (5)
5. Simsanu (7)
6. Cefnogi (4)
7. Diwethaf (4)
11. Y gweithredoedd o gorddi (9)
12. Rhoi diwedd ar rywbeth (9)
14. Uchelder (3)
15. Lle i drosglwyddo llythyrau (7)
18. Llyffant melyn (5)
19. Amddiffynfa (4)
20. Crefft (4)

## Atebion Gorffennaf

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | A | N | T | O | | C | | T | | A | | P |
| E | | | A | | C | A | N | O | L | D | I | R |
| I | R | G | I | G | | W | | N | | E | | Y |
| LL | | | D | A | T | G | E | I | N | I | A | D |
| I | | A | | L | | | | G | | L | | E |
| O | R | D | N | A | N | S | | | T | A | I | R |
| | | F | | R | | A | | Y | | D | | |
| P | R | E | N | | | D | A | M | W | A | I | N |
| E | | I | | A | | | | G | | U | | W |
| T | E | L | Y | N | E | G | I | O | N | | | Y |
| R | | I | | A | | W | | M | E | B | Y | D |
| U | N | O | L | I | A | E | TH | | I | | | O |
| S | | N | | R | | N | | Y | S | G | O | L |

# Artemis Gwarth – dyna enw i'w gofio!




Mae yna ambell i enw yn serio ar y cof ac Artemis yw un o'r rhai hynny. Yr awdures Catrin Dafydd o Waelod y Garth gafodd yr her o addasu clasur Eoin Colfer, *Artemis Fowl*, i'r Gymraeg a bu'n dychwelyd i'w hen ysgol gyfun, Ysgol Gyfun Rhydfelen, ym mis Gorffennaf, ac yn cynnal sesiynau stori yn Waterstone's, Caerdydd hefyd i gyflwyno'r dihiryn Artemis Gwarth! Bachgen anghyffredin deuddeng mlwydd oed yw Artemis a dilyn ei daith fyrlymus ef wnawn ni yn y nofel, *Artemis Gwarth*, a gyhoeddir gan Wasg Gomer.

Mewn blwch bach du ar glawr cefn y llyfr ceir ymwadiad gan Artemis ei hun: 'NID fy mywgraffydd yw awdur y llyfr hwn. Ffantasïwr ydyw, sy'n ysgrifennu storïau syfrdanol amdanaf. Ni wnaf i gadarnhau na gwadu yr hyn sydd rhwng y cloriau. Fodd bynnag, mae fy nghyfreithwyr - a'm gwarchodwr – yn cadw llygad.
Arwyddwyd Artemis Gwarth '

Yn ôl y son Artemis Gwarth sy'n gyfrifol am droseddau mwyaf ysgeler y ganrif newydd ac yn y stori gyntaf fe gawn yr hanes amdano'n ceisio adennill ffortiwn ei deulu. Mae'n dargafod arallfyd o dan y ddaear sy'n gartref i Dylwyth Teg arfog a pheryglus, corachod rhechlyd a thechnoleg anghredadwy. Ond dyw hyd yn oed Artemis ddim yn sylweddoli'n iawn beth sydd o'i flaen pan wnaiff herwgipio Capten Heulwen Pwyll.

"Llyfr llawn cyffro, hiwmor a phethau gwarthus yw e", meddai Catrin Dafydd ac mae'r llyfr 330 tudalen yn llawn cynnwr, herwgipio a brwydro diddiwedd ac yn ddarllen gafaelgar a chyffrous iawn at ddant darllenwyr brwd 9-12+ oed yn bennaf.

Bydd yr awdur a'r perfformiwr Eoin Colfer, sy'n gyn-athro ysgol ac yn byw yn Wexford, Iwerddon, ar daith gyda'i sioe fywiog ym Mhrydain.

Manylion Cyhoeddi
Artemis Gwarth gan Eoin Colfer
Addas. Catrin Dafydd
Gwasg Gomer £6.99
catrindafydd@gmail.com
www.catrindafydd.com
Eoin Colfer www.eoincolfer.com

# TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

*Gohebydd Lleol: Sylfia Fisher*

**Llwyddiant yn yr Eisteddfod.**
Testun balchder i'r ardal yw'r ffaith bod enillydd gwobr Osborne Roberts yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn dod o Bentre'r Eglwys, Mae Menna Davies, High Mead, Pentre'r Eglwys yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Gartholwg. Yn ogystal, enillodd Menna'r wobr gyntaf yn yr Unawd Operatig 19-25 oed, ail wobr yn yr Unawd Gymraeg ac ail wobr yn yr unawd cân Gelf. Mae Menna wedi cael ei derbyn gan Goleg y Guildhall yn Llundain a bydd yn cychwyn ar ei chwrs ym mis Medi. Edrychwn ymlaen at glywed rhagor gan y ferch ddawnus yma.

**Capel Salem**
Ar y Sul cyntaf o'r mis cynhaliwyd priodas Lindsey Rouch a Marc Davies yng Nghapel Salem. Mae Lindsey a Marc yn hanu o'r ardal a derbyniodd Lindsey ei haddysg gynnar yn Ysgol Gynradd Coed yr Esgob a bu Marc yn Ysgol Gynradd Garth Olwg. Y Parchedig Peter Cutts oedd a gofal y gwasanaeth gyda Simon Shewring wrth yr organ. Mae Lyndsey a Marc wedi ymgartrefi bellach yn Tŷ Draw ac estynnir y dymuniadau gorau i'r par ifanc.

Bob bore dydd Sadwrn cyntaf yn y mis cynhelir "Brecwast Dynion" yn Festri Capel Salem gan ddechrau am 8.0 o'r gloch. Mae'r patrwm yn boblogaidd ac yn dechrau dal gafael. Mae croeso i chi i ymuno a mwynhau'r gwmnïaeth.

**Llwyddiannau academaidd**
Mae tri o bobl ifanc yr ardal yn dathlu llwyddiannau academaidd gwych. Newydd calonogol yw clywed am lwyddiant Ieuan Cutts ym Mhrifysgol Abertawe. Graddiodd Ieuan eleni ym Mheirianneg Sifil ac mae wedi sicrhau swydd yn y maes hwn, gan ddechrau ym mis Medi yn Swydd Efrog. Mae Ffion Davies, y Dell wedi ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Mathemateg a Sbaeneg o Brifysgol Aberystwyth ac mae Huw Jones, Hollybush Villas wedi ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Peirianneg Mecanyddol o Brifysgol Abertawe. Cyflawnodd Huw yn ogystal y gamp o ennill gwobr Myfyriwr y Flwyddyn. Llongyfarchiadau calonnog iddyn nhw a phob llwyddiant iddyn nhw yn y dyfodol.



**Menna Davies**

**Prif swyddog**
Llongyfarchiadau i Alun Evans y Padocs ar gael ei ethol yn Brif Swyddog Ysgol Gyfun Gartholwg ( mae'n flin gen i Alun - Rhydfelen y dylwn i ddweud o gofio bod Alun y llynedd wedi dadlau'n ffyrnig dros gadw 'r enw wrth gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth siarad gyhoeddus y Rotari). Mae Alun ar hyn o bryd yng nghwmni rhai o'i gyd-ddisgyblion ar alldaith yng Nghosta Rica yn ymgymryd â nifer o weithgareddau gan gynnwys edrych ar ôl mwncïod anafus a cherdded drwy'r jyngl. Profiadau defnyddiol dros ben ar gyfer dy ddyletswyddau ym mis Medi! Pob dymuniad da i ti yn dy swydd.

**Llwyddiant cerddorol a chroeso adref.**
Llongyfarchiadau i Laura Jenkins, Llannerch Goed ar lwyddo yn yr arholiad Gradd 8 ar gyfer y delyn. Croeso adref hefyd i Laura sydd newydd ddychwelyd o Batagonia lle bu'n treulio cyfnod yn gweithio mewn ysgol yno. Edrychwn ymlaen at glywed hanesion Laura yn rhifyn nesaf Tafod Elái.

**Dewr neu wirion?**
Mae staff Canolfan Ddysgu Gydol Oes Gartholwg wedi canfod ffordd go heriol o godi arian at elusen. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae nifer o aelodau'r staff wedi cymryd rhan mewn plymio awyr tandem (*tandem skydiving*) noddedig. Fis Gorffennaf troTracey Youde ac Owain Gruffudd oedd hi i daflu eu hunain o awyren ddwy filltir i fyny yn yr awyr uwchben bae Abertawe gan lanio mewn parasiwt ar y maes awyr. Dyma'r ail dro i Tracey neidio a bydd Gruff yn plymio eto cyn diwedd y flwyddyn. Os hoffech ei noddi galwch i mewn yn y Ganolfan.

**Côr Gartholwg**
Llongyfarchiadau i Gôr Gartholwg ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth y corau ar Faes D yn yr Eisteddfod yng Nghaerdydd. Mae pob un o'r aelodau yn dysgu Cymraeg fel ail iaith gyda Phrifysgol Morgannwg a chynhelir y dosbarthiadau yn y Ganolfan gyda Maldwyn Pate yn diwtor arnynt. Maldwyn hefyd oedd arweinydd y côr.

## Newyddion Dysgwyr Morgannwg Dathlu Diwedd Tymor

Daeth y tymor dysgu i ben ddydd Gwener 20 o Fehefin ac eleni am y tro cyntaf fe ddathlwyd blwyddyn lwyddiannus arall gyda Chymanfa ganu ddydd Sul 29 Mehefin yng nghapel y Tabernacl, Porthcawl.

Roedd gwres yr haul ar y diwrnod yn cael ei adlewyrchu yng ngwres y croeso a gafwyd gan aelodau a gweinidog capel y Tabernacl ac roedd yn hyfryd gweld cymaint o gynulleidfa - yn ddysgwyr o Ferthyr, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont a Phorthcawl a Chymry Cymraeg - wedi ymgynnull.

Bu rhai dysgwyr yn darllen emynau tra bu eraill yn canu gyda dau gôr bach, un o ardal Porthcawl a'r llall o Gartholwg.

Cafwyd gwledd o ganu yn ystod y prynhawn dan arweiniad profiadol Rob Nicholls, o Gaerdydd ac Elizabeth Jones, oedd yr organydd. Cafwyd cyfraniad hefyd gan blant aelwyd yr Urdd Porthcawl. Mae pawb nawr yn edrych ymlaen yn eiddgar at Gymanfa 2009.

Daeth llwyddiant pellach i gôr Gartholwg yr wythnos diwethaf wrth iddyn nhw ennill cystadleuaeth grŵp canu i ddysgwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Da iawn chi. Mae'r côr wedi penderfynu parhau gyda'i gilydd a byddan nhw'n dechrau ymarfer yn rheolaidd o'r hydref ymlaen. Os hoffech chi, neu os dych chi'n nabod dysgwyr a fasai'n hoffi ymuno â nhw, cysylltwch â 07990 578407.

# Côr Gartholwg








Gruff a Tracey


## Portreadau Brian Davies (parhad o dudalen 8)



Brian ei hun



Sian Cothi



Rowan Williams



Hywel Teifi Edwards

"Mae paentio yn esgus go dda i mi godi arian at achos da," meddai'n swil. Yr elusen sydd yn derbyn yr arian ac sy'n agos at galon yr awdur yw Systig Ffeibrosis.

"Mae Systig Ffeibrosis yn effeithio ar blant a phobl ifanc, gan dagu'r ysgyfaint a'r system dreulio. Hyd oes bywyd rhywun â'r clefyd yw dim ond 31 mlynedd ar gyfartaledd," eglura Brian. "Rwy i'n bersonol wedi cael bywyd llawn chwaraeon ac mae 'nghalon yn gwaedu dros y rhai sy'n methu mwynhau bywyd corfforol llawn. Mae'r bobl ifanc sy'n wynebu'r clefyd wedi bod yn ysbrydoliaeth i fi i fyw bywyd i'r eithaf a datblygu sgiliau annisgwyl. Rwy'n ddiolchgar iddynt."

I gyd fynd â phob llun ceir portread geiriol gan Brian wrth iddo roi ychydig o hanes, argraffiadau ac atgofion o bob cymeriad yn ei eiriau ei hun. "Gan mod i wedi cyfarfod y rhan fwyaf o bobl sy'n ymddangos yn y llyfr cyn i mi eu paentio roeddwn i eisiau cynnwys rhai o'n hatgofion personol i i gyd-fynd â'r lluniau. Felly, rwyf wedi cynnwys rhai o uchafbwyntiau eu gyfra yn ogystal â mhrofiad i o'u darlunio," ychwanegodd Brian.

Ffrind agos i Brian, ac un sy'n ymddangos yn y llyfr yw'r cyflwynydd a'r sylwebydd rygbi, Huw Llywelyn Davies, "Gellir dweud bod hon yn gyfrol sy'n dathlu talent y Gymru gyfoes ar ganfas eang iawn, cyfrol i harddu unrhyw silff lyfrau."

**Portreadau Brian Davies Portraits**
**Carreg Gwalch £12.00**


**Help**
**CYFRIFIADUROL**

- Gwersi (I bob lefel)
- Cymorth
- Gwasanaethau cyfrifiadurol
- Gwefannau




Ffoniwch
07748800341

Microsoft CERTIFIED IT Professional

gareth@helpcyfrifiadurol.co.uk

www.helpcyfrifiadurol.co.uk




Mae dau artist unigol wedi dod at ei gilydd i ryddhau sengl tair-cân ar y cyd, ac i berfformio mewn gigs i godi arian i apêl gan Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru.

Eleni mae'r ymgyrch yn cefnogi Canolfan Los Quinchos sy'n gwasanaethu cymuned o bobl sy'n byw ar domen sbwriel yn Managua, prifddinas Nicaragua. Mae Canolfan Los Quinchos yn darparu noddfa i blant y domen lle cânt wersi, pryd poeth a chefnogaeth gymdeithasol. Bu Huw i'r domen llynedd fel rhan o ddirprwyaeth o Gymru a drefnwyd gan Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru.

Mae'r CD yn cynnwys 3 o ganeuon newydd – *Michelle Michelle* gan Huwmm (cân sy'n cyfuno cerddoriaeth wreiddiol gyda'r hen gân werin *Cariad Cyntaf*), *Barbariaid* gan Llwyd (cân wreiddiol gan Llwyd), a *Rhywbeth Dros Dro* (cân wedi'i chyfansoddi a'i recordio gan y ddau artist).

Mae Llwyd (Erddin Llwyd) eisoes wedi rhyddhau caneuon fel *Winnie Bago*, *Carafan* a *Moment Retro* a recordio Sesiwn i C2 – BBC Radio Cymru, ond dyma'r traciau cyntaf i Huwmm (Huw Meredydd Roberts) eu rhyddhau.

Am fwy o fanylion am y ddau artist:
**myspace.com/ellwyd**
**myspace.com/huwmm**
**Fformat:** CD sengl + *itunes*
**Label:** Dim label
**Traciau:**
1. Michelle Michelle – Huwmm
2. Barbariaid – Llwyd
3. Rhywbeth Dros Dro – Llwyd a Huwmm

## *Y Gymraeg bob tro*

Ydych chi eisiau i'r cyngor gyfathrebu â chi fel unigolyn, naill ai drwy lythyr neu dros y ffôn, trwy gyfrwng y Gymraeg?

Os felly, ffoniwch, anfonwch lythyr neu neges ebost yn nodi'ch manylion

***Uned Gwasanaethau Cymraeg***
*Tŷ Trevithick Abercynon*
*Aberpennar CF45 4UQ* . **01443 744033**
**Caroline.m.mortimer@rhondda-cynon-taf.gov.uk**

# Mudiad Ysgolion Meithrin

**Cylch Meithrin Creigiau**

Cafwyd blwyddyn arall lwyddiannus yn y Cylch a diolch i'r staff i gyd. Hoffwn longyfarch Sharon Coetsee ar ei phenodiad fel cynorthwyydd dosbarth yn Ysgol creigiau, bydd yn golled fawr i'r Cylch. Mae Sharon wedi dysgu Cymraeg yn wych yn ystod y blynyddoedd diwethaf diolch i'r cwrs WLPAN yn ysgol Creigiau.

Os ydych am roi enw eich plentyn lawr i'r cylch neu os hoffech weithio yn y cylch neu redeg sesiwn Ti a Fi ffoniwch Lisa ar 07866 087042

Cofiwch hefyd fod Ti a Fi yn cwrdd brynhawn Gwener am 1.15pm

**CYLCH MEITHRIN EFAIL ISAF**
**Bob bore**
**Mawrth, Mercher, Iau a Gwener**
**9.30 - 11.30**
**Yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf**
**Manylion: 01443 208806**

**TI A FI BEDDAU**
**Bob bore Mercher 10.00 - 11.30a.m.**
**yn Festri Capel Castellau, Beddau**

**TI A FI TONTEG**
**Bob dydd Mawrth 10 - 11.30**
**yn Festri Capel Salem, Tonteg**

**TI A FI CREIGIAU**
**Prynhawn Gwener 1.15 - 2.45**
**Neuadd y Sgowtiaid**
**Y Terrace, Creigiau**
**Manylion: 07866 087042**

**TI A FI PENTRE'R EGLWYS**
**1.15-2.45p.m. Neuadd Y Plwyf**
**Bob dydd Iau**

**CYLCH MEITHRIN CILFYNYDD**
**Bore Llun, Mercher a Iau**
**9.30-11.30**
**TI A FI CILFYNYDD**
**Dydd Gwener 9.30-11.30**
**Neuadd Y Gymuned,**
**Stryd Howell,Cilfynydd.**
**Manylion: Ann 07811 791597**

**CYLCH MEITHRIN BRYNNA**
**Dydd Llun - Gwener 9.30 - 12.30**
**01443 229723**

**CYLCH MEITHRIN PONTYCLUN**
**Dydd Llun - Gwener 9 - 12**
**07912 101506**
**Ti a Fi Pontyclun**
**Prynhawn Llun 1.15 - 2.45**
**01443 225644**

**CYLCH MEITHRIN THOMASTOWN**
**Dydd Llun - Iau 9.15 - 11.45**
**Ti a Fi bore Gwener 9.30 - 11.30**
**07757 633249**

**CM Thomastown**

Llwyddodd CM Thomastown i fod yn ddarparwr addysg gofrestredig sy'n golygu gall plant 3 oed nawr gael eu hariannu i fynychu'r cylch yn y tymor ar ôl iddynt fod yn 3 oed. Nododd y Sir fod eu ffeil o safon uchel dros ben a diolch i waith y staff o dan arweiniad Janet Richards.

Bu Martyn Geraint yn diddori'r plant ar ddiwedd y tymor diolch i grant Cymunedau'n Gyntaf Menter Iaith

**Ti a Fi Llanhari**

Mae Ti a Fi newydd yn agor ym mis Medi yng nghanolfan gymunedol Llanhari. Sian Edwards sy'n siarad Cymraeg ac yn gyn-ddisgybl yn ysgol Llanhari fydd yn ei redeg. Dewch i gwrdd â ffrindiau newydd ar brynhawn iau rhwng 1.30 a 3pm

**Cylch Meithrin Brynna**

Mae cylch meithrin Brynna yn mynd o nerth i nerth o dan arweiniad Kella Thomas, cyn-ddisgybl yn ysgol Llanhari. Maent yn cwrdd bob bore yn y ganolfan gymunedol yn Brynna ac maent ar agor dros bob gwyliau. Kella sydd hefyd yn rhedeg Ti a Fi Pontyclun yn Hope Castan Church, Castan Road ar brynhawn Llun am 1.15 - dewch draw i gwrdd â ffrindiau newydd.

**Teleri Jones**
**Swyddog Datblygu Rhondda Taf**
**Mudiad Ysgolion Meithrin**
**07800 540316**
**teleri.jones@mym.co.uk**

**Cylch Meithrin Efail Isaf**

Ar ôl blwyddyn lwyddiannus arall yng nghylch Meithrin Efail Isaf, edrychwn ymlaen yn fawr at y flwyddyn nesaf. Bu nifer o achlysuron i godi arian yn ystod y flwyddyn, pob un ohonynt yn hynod lwyddiannus a diolch i bawb am gefnogi. Ar ddiwedd mis Mehefin, roedd diwrnod / noson i godi arian i'r Cylch, codwyd £656.27. Unwaith eto, bu'r diwrnod yn llwyddiant gyda stondinau cacennau, teganau, cardiau a cholur yn ogystal â 'bouncy castle', i'r plant. Gyda'r nos, roedd criw o ddisgyblion talentog y chweched dosbarth o Ysgol Bryncelynnog wedi ein diddanu gydag amrywiaeth o ganeuon. Dilynwyd y canu gyda Thwmpath ar ddiwedd y noson a bron pawb yn y neuadd ar eu traed yn dawnsio. Diolch i bawb am gyfrannu.

# Ysgol Gynradd Dolau

**Blwch Amser**
Mae blwyddyn 3 a 4 wedi creu a chladdu blwch amser fel rhan o'u gwersi hanes y flwyddyn hon. Mae'r plant wedi dewis eitemau sydd yn bwysig iddyn nhw i roi yn y bocs - llyfrau, posteri, arian a theganau. Mae rhai o'r plant yn bwriadu dod yn ôl i'r ysgol yn 2028 gyda'u plant i weld os yw pethau wedi newid!

**Sioe Haf**
Yn ystod mis Gorffennaf, perfformiodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 sioe gerdd o'r enw 'Dilyn Breuddwyd' yng nghlwb rygbi Llanharan. Roedd y ddau berfformiad yn llwyddiannus iawn ac yn adlewyrchiad o ymroddiad llwyr y plant. Roedd y canu'n swynol a'r actio'n rhagorol. Yn sicr, fe welwn wynebau cyfarwydd ar lwyfan 'Broadway' yn y dyfodol agos.

**Picnic y 'Tedi Bers'**
Cawsom ddiwrnod bendigedig ym Mharc Ynysangharad ar gyfer ein picnic. Roedd y tywydd yn wych a gwnaeth pob un fwynhau'r gweithgareddau i gyd - y parc antur, pwll a'r holl bebyll llawn gweithgareddau. Aeth pawb adre gyda bag llawn nwyddau a phethau crefft. Diwrnod i gofio!

**Trip Ynys y Barri**
Roedden ni yn lwcus iawn y flwyddyn yma i ymweld ag Ynys y Barri a'r ganolfan Adar heb lawer o law, ac aeth ambell un dewr i nofio yn y môr brrrrrrrr!! Cafodd llawer o blant y cyfle i ddal nifer o'r adar hyfryd a welon ni yn y Ganolfan Adar. Roedd y plant i gyd wedi mwynhau ac wedi cael hwyl yn adrodd eu profiadau y diwrnod wedyn. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi ni! Welwn ni chi blwyddyn nesaf.

**Ffair Haf**
Ar ddydd Gwener Gorffennaf 4ydd cawsom ein ffair haf. Roedd yna ddigon i wneud, chwarae, bwyta a gweld. Cafodd y plant hwyl ar y castell neidio, bwyta candifflos, a chwarae'r gemau amrywiol. Cawsom gyfnod o arddangosfeydd o gymnasteg a gafodd ei ohirio oherwydd y glaw a'r tywydd!! Roedd cystadleuaeth gwisg ffansi hefyd - ymdrech wych gan y plant i wisgo i fyny. Roedd nifer o stondinau a gafodd eu trefnu a rhedeg gan ddisgyblion blwyddyn 6 fel rhan o waith menter busnes i redeg stondin a chreu elw!

# Menter Caerdydd

**(parhad o dudalen 16)**

**Cwis Cymraeg**
Fe fydd Cwis Cymraeg nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Medi 28 yn y Mochyn Du am 8pm. £1 y person.

**Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd**
Mae'r wythnosau wedi'r 'Steddfod wedi bod yn rhyfedd iawn ar ôl yr holl drefnu, a'r edrych ymlaen.

Llwyddiant ysgubol oedd cyngerdd y Fenter ar y bore Sadwrn cyntaf, pan ddaeth dros 400 o blant a'u teuluoedd i'r cyngerdd ar gyfer babanod ysgolion Cymraeg y ddinas yn y Babell Lên. Diolch byth am y stiwardiaid i reoli'r dyrfa fawr o rieni, teulu a ffrindiau oedd yn aros i fynd mewn i weld y plant yn canu. Diolch yn fawr i Branwen Gwyn am arwain ac i'r holl athrawon am eu cydweithrediad parod.

Daeth tyrfa fawr hefyd i weld Ffwrnais Awen yn perfformio Annie yn Theatr Fach y Maes - bu'n rhaid cau'r drysau'n gynnar yn anffodus oherwydd nifer y bobl yn aros.

Roedd hi'n wythnos wych, er gwaethaf ambell ddiwrnod o law! Diolch i bawb am alw mewn i'n gweld yn ystod yr wythnos. Gobeithio na fydd rhaid i ni aros 30 mlynedd arall cyn cael 'Steddfod arall yng nghanol y ddinas!

**Clwb Sbargo**
Clwb cymdeithasol i blant ag anghenion arbennig. Fe fydd y clwb yn ail ddechrau Nos Fercher, Medi 24, yn Ysgol Gyfun Plasmawr. Cysylltwch ag Angharad am fwy o fanylion.

**Dyfal Donc**
Llongyfarchiadau i'r plant a gymerodd rhan yn Dyfal Donc eleni. Cawsom wasanaeth arbennig i ddathlu eu llwyddiant ar ddydd Gwener, Gorffennaf 11eg. Roedd cynnydd o 24 mis ar gyfartaledd. Bendigedig. Da iawn pob un ohonoch chi! Diolch arbennig i'r staff ychwanegol am gefnogi'r plant trwy gydol y flwyddyn yn wirfoddol.

Diolch o galon am eich gwaith caled.

**Oakwood**
Roedd y tywydd yn garedig i ni ar gyfer ein trip Adran Iau i Oakwood. Roedd y staff a'r plant wedi cael amser ffantastig, a roedd y lluniau a dynnwyd ar y reids yn ddoniol iawn!

**(Lluniau ar dudalen 16)**

# Apêl Llosgfynydd Chaitèn y Wladfa Wedi Cyrraedd y Nod!




Ar ddydd Gwener, Mai 2il fe ffrwydrodd llosgfynydd Chaitèn yn Chile. Roedd hwn y tro cynta' i Chaitèn ffrwydro ers mwy na 9,000 o flynyddoedd. Tasgodd y llwch o'r llosgfynydd, 760 milltir i'r de o brifddinas Chile, Santiago, gan gyrraedd yr Ariannin ble roedd yn disgyn fel eira trwchus. Ymledodd y cwmwl cyn belled â Commodoro Rivadavia ar arfordir dwyreiniol yr Ariannin. Achosodd y llwch a ddisgynnodd anhwylustod a phryder yn ein rhan ni o'r Wladfa Gymraeg ym Mhatagonia gan effeithio'n arbennig o ddrwg ar bobl yn Esquel a Threvelin.

Roedd Menter Iaith Patagonia wedi bod yn cydweithio gydag Urdd Gobaith Cymru a Mentrau Iaith Cymru i ddod o hyd i lety a hyfforddiant i rai o bobl ifanc yr ardal yng Nghymru er mwyn iddynt dderbyn hyfforddiant a phrofiad gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn sgil yr effaith anffodus ar ddarpariaeth gwersi a gweithgareddau Cymraeg yma yn ardal yr Andes eleni roedden ni'n awyddus iawn i fanteisio ar y cynnig hwn. Ond er mwyn ei dderbyn roedd rhaid i ni ddod o hyd i ddigon o arian ar gyfer eu tocynnau awyren. Felly gwnaeth Ysgol Gymraeg yr Andes a Menter Iaith Patagonia apêl yn y wasg, y radio a theledu i'n helpu i godi'r arian.

Mae ymateb hael a thwym galon pobl Cymru i'n hapêl wedi ein syfrdanu. Daeth llif o gyfraniadau ac erbyn hyn rydym yn falch iawn o gyhoeddi ein bod wedi cyrraedd ein targed! Felly fe fydd modd i ddau berson dderbyn hyfforddiant fydd yn arwain at gymhwyster proffesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg. Fe fydd hyn yn werthfawr iawn iddynt o ran safon eu Cymraeg yn ogystal â'u datblygiad personol.

Rydym wedi ysgrifennu at bawb sy wedi rhoi eu cyfeiriad i ni i'w diolch yn unigol ond does gyda ni ddim cyfeiriad i bawb. Felly hoffem gymryd y cyfle hwn i ddweud diolch o galon yn gyhoeddus i bawb a gyfrannodd.

menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org
029 20 56 56 58

**Delwedd newydd Menter Caerdydd**
Fel y mae nifer ohonoch wedi sylwi, mae Menter Caerdydd wedi cael delwedd a logo newydd i gyd-fynd â dathlu 10 ers sefydlu'r Fenter eleni. Mae staff y Fenter ac Elfen wedi bod yn brysur iawn yn paratoi'r ddelwedd newydd a fydd i'w weld ar holl waith y Fenter o hyn ymlaen!

**Ffwrnais Awen yn perfformio ANNIE!**
Llongyfarchiadau mawr i griw Ffwrnais Awen ar eu cynhyrchiad cyntaf dros yr haf! Roedd Stiwdio Weston yng Nghanolfan y Mileniwm dan ei sang ar gyfer dau berfformiad o Annie ar Orffennaf 22, a chafwyd y cyfle hefyd i berfformio hefyd yn Theatr y Maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Diolch o galon i Anwen, Anwen, Charlie, Siôn a phawb arall bu'n brysur yn paratoi - mae'r plant yn sicr wedi cael cyfleoedd bythgofiadwy, ar gynulleidfa wedi mwynhau mas draw!

Fe fydd Ffwrnais Awen yn ail ddechrau tymor newydd ddiwedd mis Medi, a bydd blwyddyn brysur arall o'n blaen wrth baratoi i gystadlu yn 'Steddfod yr Urdd 2009. Am fwy o wybodaeth am Ffwrnais Awen, cysylltwch ag Angharad - angharad@mentercaerddd.org

**Clybiau Plant Menter Caerdydd**
Fe fydd y clybiau i gyd yn dechrau o Fedi 22 ymlaen - Clwb Nofio, Clwb Clocsio, Clwb Celf, Clwb Tenis, Clwb Sbaeneg Plant, Clwb Dawns Stryd, Clwb Drama Bach, Clwb Rygbi. Fe fydd llyfryn cofrestru yn cael ei ddosbarthu i'r ysgolion ddechrau fis Medi. Am fwy o fanylion e-bostiwch angharad@mentercaerdydd.org

**Clybiau Oedolion**
Clwb Pêl-rwyd i Fenywod, Clwb Rhedeg, Gwersi Sbaeneg trwy gyfrwng y Gymraeg, Cynghrair Sboncen, Cynghrair Badminton. Cysylltwch ag Angharad yn y swyddfa am fwy o fanylion.

**(Parhad ar dudalen 15)**




**Mae Ffônlyfr 2008-09 ar gael NAWR!**

**Mae'r Ffonlyfr yn cynnwys rhifau ffôn pobl sy'n cynnig gwasanaethau drwy'r Gymraeg yng Nghaerdydd**

# Lluniau Ysgol y Dolau
**(Newyddion ar dudalen 15)**



**Claddu'r Blwch Amser**



**Y Sioe Haf**



**Canolfan Adar y Barri**



**Ffwrnais Awen yn perfformio ANNIE!**



**Clwb Clocsio Menter Caerdydd yn dilyn perfformiadau yn y Neuadd Ddawns ac ar y Llwyfan Perfformio ar Faes yr Eisteddfod.**